# CYNGOR GWYNEDD

# Cynllun Ariannol Tymor Canolig

# 2025/26 i 2027/28

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r ddogfen hon yn nodi Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ar gyfer Cyngor Gwynedd hyd at flwyddyn ariannol 2027/28.


1.2. Mae'r gyllideb yn cael ei hadnewyddu'n flynyddol i ystyried unrhyw newidiadau lleol neu genedlaethol, ond mae’r cynllun hwn yn asesiad lefel uchel o anghenion ariannol y Cyngor am dair blynedd. Bydd unrhyw adolygiad neu adnewyddiad o Gynllun y Cyngor yn y blynyddoedd nesaf hefyd yn cael ei adlewyrchu, gan ymgorffori unrhyw newidiadau ariannol sy'n deillio o hynny. Bydd hefyd yn cael ei ddiweddaru ar gyfer newidiadau mewn tybiaethau ariannu cenedlaethol a lleol, amcanestyniadau incwm lleol, pwysau gwario ac unrhyw newidiadau mewn cynlluniau arbed.

1.3. Yn olaf, mae'r ddogfen yn nodi'r arbedion sydd angen eu hystyried, gan egluro'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth ddatblygu'r Gyllideb a'r CATC. Bydd y rhagdybiaethau hynny'n cael eu hadolygu'n barhaus ac, os oes angen, eu diwygio ar gyfer y blynyddoedd i ddod wrth i fwy o ddata a thystiolaeth ar ofynion a chyllid gwasanaethau ddod ar gael.

1.4. Felly, er bod y gyllideb ar gyfer 2024/25 eisoes wedi ei osod ar 7 Mawrth 2024, mae cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd dilynol 2025/26 – 2027/28 yn ddangosol yn unig ac yn debygol o newid cyn i'r cyllidebau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu cymeradwyo fel rhan o'r cylch blynyddol.

## 2. RHAGDYBIAETHAU AR DDULLIAU ARIANNU

2.1. Mae'r siart isod yn dangos ffynhonnell ariannu'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25:




**Cyllid Allanol Cyfunol**

2.2. Gyda'i gilydd, gelwir y cyfuniad o gyfraniad y Cyngor o'r Grant Dreth Annomestig Genedlaethol (£43m) a'r Grant Bloc (neu Grant Cynnal Refeniw (RSG)) (£190m) yn **Cyllid Allanol Cyfun (AEF)** ond yn gyffredin defnyddir y term "Setliad" ar gyfer y swm yma. Ar gyfer 2024/25 mae AEF Cyngor Gwynedd yn £233,316,780 (cyfeirir ato yn adroddiad y Gyllideb fel "Grant Llywodraeth"), ac mae'n cynrychioli oddeutu 40% o incwm gros y Cyngor.

Cyllideb 2024-25 (llyw.cymru)

2.3. Mae setliad pob Cyngor yn deillio o ganlyniad Asesiad o Wariant Safonol (SSA) i bob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru gan y Llywodraeth, a caiff y swm yma ei bennu ar lefel Cymru gyfan fel cam cyntaf, yn ddibynnol ar yr arian sydd ar gael i'w ddosbarthu.

2.4. I ddibenion cyfrifo dyraniadau SSA unigol i bob Cyngor, dadansoddir gwariant refeniw net llywodraeth leol i 53 o feysydd gwasanaeth tybiannol. Gosodir swm gwario damcaniaethol ar gyfer pob un o'r meysydd gwario hyn, sy'n seiliedig ar wariant yn y gorffennol (lle mae gwybodaeth o'r fath yn bodoli), fel arfer gydag oediad o tua 3 blynedd oherwydd yr amserlen cyhoeddi, gwirio ayb. Y ffigwr yma ydi'r Asesiad Gwariant Safonol (SSA) ar gyfer y maes gwasanaeth.

2.5. Pennir dull dosbarthu ar wahân ar gyfer pob un o'r meysydd gwasanaeth hyn yn eu tro er mwyn dosbarthu'r cyfanswm ar gyfer y gwasanaeth ar draws yr awdurdodau.

2.6. Mae'n egwyddor sylfaenol o'r drefn dylai cydrannau pob fformiwla fod yn wrthrychol lle bo hynny'n bosibl, fel na all awdurdodau ddylanwadu'n uniongyrchol ar gyllid (h.y. "chwarae'r system").

2.7. O'r holl ddata a ddefnyddir, mae:

- **67% o fewnbynnau data yn seiliedig ar gleientiaid (e.e. poblogaeth a demograffi)**
- **27% yn fesurau amddifadedd**
- **6% yn fesurau o ddilysrwydd / dwysedd.**

2.8. Mae dyraniadau'n seiliedig ar raniadau cymharol Cymru, nid lefelau data awdurdod, gan bod swm yr arian sydd ar gael wedi ei sefydlu ar ddechrau'r broses.

2.9. Cyngor Gwynedd dderbyniodd y setliad ariannol waethaf gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb 2024/25 o safbwynt y canran o gynnydd – mae Cyngor Gwynedd yn ail-ar –hugain allan o ddauddeg dau. Mae'r canran o gynnydd rydym wedi ei dderbyn yn 2.251% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 3.3%:

| Awdurdod Unedol | Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2023-24 [Nodyn 1] | Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2024-25 | Newid fel canran | Rheng |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 124,147 | 127,586 | 2.8% | 17 |
| Gwynedd | 228,180 | 233,317 | 2.3% | 22 |
| Conwy | 199,025 | 203,526 | 2.3% | 21 |
| Sir Ddinbych | 193,351 | 200,795 | 3.8% | 4 |
| Sir y Fflint | 252,255 | 258,527 | 2.5% | 20 |
| Wrecsam | 225,021 | 232,865 | 3.5% | 8 |
| Powys | 228,852 | 235,865 | 3.1% | 11 |
| Ceredigion | 131,569 | 135,286 | 2.8% | 14 |
| Sir Benfro | 212,918 | 218,870 | 2.8% | 16 |
| Sir Gaerfyrddin | 338,755 | 350,646 | 3.5% | 7 |
| Abertawe | 417,919 | 435,021 | 4.1% | 3 |
| Castell-nedd Port Talbot | 277,211 | 285,594 | 3.0% | 12 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 250,853 | 258,925 | 3.2% | 10 |
| Bro Morgannwg | 202,925 | 209,781 | 3.4% | 9 |
| Rhondda Cynon Taf | 471,369 | 485,567 | 3.0% | 13 |
| Merthyr Tudful | 119,170 | 123,492 | 3.6% | 5 |
| Caerffili | 340,339 | 348,864 | 2.5% | 19 |
| Blaenau Gwent | 140,094 | 144,044 | 2.8% | 15 |
| Torfaen | 172,572 | 178,733 | 3.6% | 6 |
| Sir Fynwy | 122,844 | 126,019 | 2.6% | 18 |
| Casnewydd | 289,622 | 304,045 | 5.0% | 1 |
| Caerdydd | 597,291 | 623,158 | 4.3% | 2 |
| **Cyfanswm Awdurdodau Unedol** | **5,536,285** | **5,720,524** | **3.3%** | |

2.10. Y prif reswm dros hyn oedd y gostyngiad a welwyd yn y ffigyrau poblogaeth a ddefnyddiwyd at bwrpasau'r setliad rhwng yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd yn 2022/23 a ffigyrau cyfrifiad 2021 a ddefnyddiwyd yn 2024/25. Roedd 2023/24 yn flwyddyn drosiannol lle defnyddiwyd cyfartaledd y amcangyfrifon a chanlyniadau'r setliad.


2.11. Fel gydag unrhyw ffactor wrth gyfrifo'r Setliad, nid y newid i boblogaeth Gwynedd ynddo'i hun sydd yn effeithio ar y cyfrifiad, ond y newid i boblogaeth Gwynedd mewn cymhariaeth â newid ym mhoblogaeth gweddill Cymru. Gwelir yn y tabl isod fod data poblogaeth Gwynedd fel % o boblogaeth Cymru, at bwrpasu'r setliad, wedi gostwng dros y 4 blynedd ddiwethaf o 3.95% i 3.75%:

| Awdurdod Unedol | Poblogaeth, bob oed fel % o boblogaeth Cymru 2021-22 | Poblogaeth, bob oed fel % o boblogaeth Cymru 2022-23 | Poblogaeth, bob oed fel % o boblogaeth Cymru 2023-24 | Poblogaeth, bob oed fel % o boblogaeth Cymru 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **3.95%** | **3.95%** | **3.86%** | **3.75%** |

2.12. Ar hyn o bryd, asesir fod y cwymp ym mhoblogaeth Gwynedd wedi effeithio ar gyllidebau 2023/24 a 2024/25 yn unig a rydym yn disgwyl i'r sefyllfa sefydlogi dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yma, gyda poblogaeth Gwynedd fel % o un Cymru yn aros oddeutu 3.75%. Awgrymir felly y byddai'n briodol defnyddio ffigyrau cyfartaledd Cymru ar gyfer gwerth y setliad ar gyfer y 3 blynedd nesaf.

2.13. Mae Dadansoddi Cyllid Cymru, sy’n rhan o Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, wedi cynhyrchu’r graff isod sy’n dangos sut mae disgwyl i rym gwario Llywodraeth Cymru newid dros y blynyddoedd nesaf, cyn ac ar ôl Datganiad yr Hydref gan Ganghellor y Trysorlys ym mis Tachwedd 2023. Gwelir fod disgwyl i’r gwariant ostwng rhwng 2024-25 a 2025-26, cyn dechrau cynyddu’n raddol, ond ni fydd disgwyl iddo ddychwelyd i graddfa 2022/23 tan 2027/28.

**Welsh Government day-to-day spending on public services, real terms (2022-23=100)**




*Source: Wales Fiscal Analysis calculations*

2.14. **Mae’r gwariant a nodir uchod yn ragolwg o gyfanswm gwariant y Llywodraeth. Petai’r Llywodraeth yn penderfynu gwarchod gwasanaethau megis y Gwasanaeth Iechyd, Ysgolion a gofal plant, bydd pob gwasanaeth arall yn cael ei wasgu ac o bosib byddwn yn gweld toriadau o 2% y flwyddyn mewn termau real ar bob maes arall, a fyddai’n doriadau ar raddfa tebyg i’r hyn a welwyd ar gychwyn y 2010au**.

2.15. Wrth ystyried cynnydd yn y setliad ar gyfer 2025/26 hyd 2027/28 rydym wedi ystyried y ffactorau a rhagdybio bydd yr AEF i Gyngor Gwynedd yn aros yn “cash flat” (h.y. dim cynnydd yn unol â chwyddiant, ond dim toriad mewn arian parod chwaith).

**Treth Cyngor**

2.16. Mae'r rhagolygon ar gyfer incwm Treth y Cyngor yn cael ei yrru gan ddau brif ffactor:

a) Nifer yr eiddo cyfatebol Band D, a elwir yn "sylfaen drethiannol".

Mae'r sylfaen drethiannol ar gyfer 2024/25 yn cyfateb i 56,109.27 o eiddo Band D. Wrth symud ymlaen, mae'r Cyngor wedi tybio bydd y gyfradd gasglu yn parhau'n gyson ar 99% a bydd twf blynyddol o tua 1% y flwyddyn, wrth i unedau gwyliau hunan-ddarpar ddychwelyd o'r gyfundrefn ardrethi busnes, ond nifer y ceisiadau am eithriadau a disgowntau gynyddu. Rhagwelir erbyn 2027/28 y bydd sylfaen y dreth felly yn cyfateb i 57,809.44 eiddo Band D.

b) Y tâl fesul eiddo cyfatebol Band D.

Mae Treth y Cyngor 2024/25 yn £1,755.47, oedd yn gynnydd o 9.54% o'r lefel yn 2023/24.

2.17. Mae'r rhagolygon ar gyfer blynyddoedd diweddarach y SATC at ddibenion cynllunio ariannol yn unig yn seiliedig ar gynnydd cyffredinol pellach o 5% y flwyddyn ym mhob blwyddyn o 2025/26 hyd 2027/28.

| | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 |
|---|---|---|---|---|
| **Sylfaen Drethiannol (Cyfateb i Band D)** | 56,109.27 | 56,670.36 | 57,237.07 | 57,809.44 |
| Cynnydd mewn eiddo | | 561.09 | 566.70 | 572.37 |
| % cynnydd | | 1.00% | 1.00% | 1.00% |
| | | | | |
| **Treth Band D (£)** | 1,755.47 | 1,843.24 | 1,935.41 | 2,032.18 |
| Gwerth y cynnydd £ | | 87.77 | 92.16 | 96.77 |
| % cynnydd | | 5.00% | 5.00% | 5.00% |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cynnyrch Treth Cyngor (£m)** | 98.50 | 104.46 | 110.78 | 117.48 |
| Cynnydd £m | | 5.96 | 6.32 | 6.70 |
| Cynnydd % refeniw | | 6.05% | 6.05% | 6.05% |

2.18. Mae'r Cyngor yn rhedeg Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, sy'n seiliedig ar reoliadau cyffredin ar gyfer Cymru gyfan. Mae dros 8,100 o dai yn derbyn elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor trwy'r cynllun yma.

**Crynodeb o Gynnydd yn yr Incwm a Ragwelir**

**2.19. Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu cyllideb o £331,814,710 ar gyfer 2024/25 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £233,316,780 a £98,497,930 o incwm o'r Dreth Cyngor.**

**2.20. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau uchod, rhagwelir bydd incwm y Cyngor o Grant y Llywodraeth a Treth Cyngor yn cynyddu fel a ganlyn dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn:**

| | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m |
|---|---|---|---|
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | 0 | 0 | 0 |
| Treth Cyngor | 6.00 | 6.30 | 6.70 |
| **Cynnydd mewn incwm** | **6.00** | **6.30** | **6.70** |

..

## 3. CYNLLUNIAU GWARIANT GWASANAETH

### Chwyddiant cyflog

3.1. Mae chwyddiant cyflog yn cynnwys y cynnig cyflog cenedlaethol. Mae £15.1m wedi'i gyllidebu ar gyfer y dyfarniad cyflog ar gyfer 2024/25, sy'n cael ei amcangyfrif ar hyn o bryd fel cynnydd o 5%. Amcangyfrifir bydd dyfarniadau cyflog 2025/26 yn 3%, ac yna 2% yn 2026/27 a 2027/28.

### Chwyddiant prisiau

3.2. At ddibenion cynllunio cyllideb strategol, rydym yn cynllunio bydd chwyddiant costau eraill yn gyson â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), heblaw am rai meysydd gwariant penodol lle mae'r cynnydd hanesyddol wedi bod yn nodedig o wahanol i CPI.

| | **2025/26 chwyddiant** | **2026/27 chwyddiant** | **2027/28 chwyddiant** |
|---|---:|---:|---:|
| Costau Gofal | 4% | 3% | 2.5% |
| Ynni a Tanwydd | 2% | 2% | 2% |
| Ardollau* | 5% | 3% | 3% |
| Chwyddiant arall (CPI) | 2% | 2% | 2% |


** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig), Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd*

<u>Costau Gofal</u>. Mae chwyddiant yn y maes Gofal wedi bod yn hanesyddol uwch na phrisiau yn gyffredinol, yn bennaf oherwydd costau cartrefi gofal annibynnol. Disgwylir bydd y chwyddiant cyffredinol uchel iawn a welwyd yn 2022 a 2023 bellach wedi cael ei deimlo yng nghostau 2024/25 ac y bydd chwyddiant mewn blynyddoedd dilynol yn is nag a fu, ond yn parhau'n uwch na chwyddiant CPI.

<u>Ynni a Thanwydd</u>. Mae'r ffigyrau chwyddiant hyn yn tueddu i fod yn llawer mwy cyfnewidiol na chwyddiant cyffredinol, ond at bwrpasau cynllunio yn y tymor canolig mae'n rhesymol i ddefnyddio ffigyrau CPI.

<u>Ardollau</u>. Mae'r rhain yn symiau sy'n cael eu codi gan 4 corff allanol sy'n codi lefi, sef Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig) a Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd. Mae lefi Awdurdod y Parc yn seiliedig ar y grant mae'r Awdurdod yn ei dderbyn gan y Llywodraeth, ond mae'r cyrff eraill yn codi lefi sy'n adlewyrchu'r gyllideb a osodir ganddynt. Rydym yn rhagweld y bydd cynnydd o 5% ar y cyfan (yn bennaf yn cael ei yrru gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru) yn 2025/26 gan ostwng i 3% yn y ddwy flynedd ddilynol.

Chwyddiant arall (CPI). Mae'r cyngor yn defnyddio rhagolwg Banc Lloegr (BoE), ynghyd â chyngor Arlingclose ein Ymgynghorwyr Trysorlys, i amcangyfrif cyfradd y CPI. Mae'r siart isod yn ddyfyniad o'r rhagolwg chwyddiant CPI a gyhoeddwyd gan y BoE yn adroddiad MPC Chwefror 2024.




3.3. At bwrpasu cynllunio'r costau am oes y Cynllun hwn, felly, rydym wedi gweithio yn unol â'r rhagdybiaethau diweddaraf sydd ar gael, a gosod lefel chwyddiant CPI ar 2% ar gyfer pob blwyddyn 2025/26 hyd 2027/28.

**Pwysau / Galw am wasanaethau**

3.4. Yn 2023/24 a 2024/25, dim ond bidiau ariannol cwbl anorfod mae'r Cyngor wedi gallu ei hariannu, a hynny er mwyn ariannu meysydd lle rydym yn argyhoeddedig nad oedd y gyllideb yn ddigonol. Yn 2024/25 rydym wedi ariannu £5.1miliwn o fidiau parhaol anorfod, yn dilyn ariannu £2.7miliwn o fidiau parhaol ar gyfer 2023/24.

3.5. Mae'r bidiau yn cael eu hariannu yng nghyd-destun gorwariant sylweddol ar gyllidebau'r Cyngor yn 2023/24. Roedd adolygiad ffurfiol diwedd Tachwedd 2023 yn rhagweld gorwariant o £8 miliwn ar wasanaethau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn, ac mae mae'r CATC yma yn edrych ar ddod â gwariant yn y meysydd hyn yn unol â'i gyllideb.

3.6. Wrth osod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gwneir rhagdybiaeth na fydd modd ariannu bidiau parhaol i'r un lefel ag yn 2024/25, ac fod nifer o'r prif feysydd gorwariant wedi cael sylw a bydd trefniadau yn cael eu datblygu er mwyn rhoi rhybuddion cynnar am y prif feysydd o orwariant hanesyddol.

3.7. Rhagdybir, felly, bydd angen £3m yn flynyddol i ariannu bidiau anorfod.

**Crynodeb o Gynnydd yn y Gwariant a Ragwelir**

**3.8. Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu cyllideb o £331,814,710 ar gyfer 2024/25.**

**3.9. Ar sail y rhagdybiaethau sydd wedi cael eu nodi uchod, rhagwelir bydd gofynion gwariant yn cynyddu fel a ganlyn dros oes y CATC:**

| | **2025/26**<br>**£m** | **2026/27**<br>**£m** | **2027/28**<br>**£m** |
|---|---|---|---|
| Chwyddiant Tâl | 7.4 | 5.1 | 5.2 |
| Chwyddiant Prisiau | 3.6 | 3.0 | 2.8 |
| Ardollau | 0.5 | 0.3 | 0.3 |
| Pwysau ar Wasanaethau | 3.0 | 3.0 | 3.0 |
| **Cynnydd mewn gofynion gwariant** | **14.5** | **11.4** | **11.3** |

## 4. ARBEDION

4.1. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno ystod o arbedion a thoriadau ers cychwyn blwyddyn ariannol 2023/24.

Arbedion a gymeradwywyd Mawrth 2023

4.2. Ar 14 Chwefror 2023, bu i'r Cabinet gymeradwyo gwerth £8.4m o arbedion (gan gynnwys ysgolion) ar gyfer cyllideb 2023/24 ymlaen. Daeth yr arbedion i rym yn unol â'r proffil isod. Nid yw'r arbedion o £450,000 sydd yng ngholofn 2025/26 yn y tabl isod wedi cael eu tynnu o gyllidebau adrannol eto felly maent ar gael i lenwi bwlch ariannol yn 2025/26.

**PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION 2023/24 YMLAEN**

| | 2023/24<br>£ | 2024/25<br>£ | 2025/26<br>£ | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Proffil arbedion (heb ysgolion) | 3,097,370 | 2,848,630 | 450,000 | **6,396,000** |
| Ysgolion | 1,146,600 | 819,500 | - | **1,966,100** |
| **CYFANSWM** | **4,243,970** | **3,668,130** | **450,000** | **8,362,100** |

Arbedion a gymeradwywyd Mawrth 2024

4.3. Yn sgil y setliad ariannol gwael a hefyd yr hinsawdd economaidd bresennol a'r lefelau chwyddiant uchel, roedd yn anorfod fod rhaid i awdurdodau lleol barhau i edrych ar arbedion a thoriadau i gynorthwyo'r sefyllfa ariannol. Yn Chwefror 2024, cymeradwyodd y Cabinet restr o arbedion pellach arfaethedig ar gyfer eu gweithredu yn 2024/25 – 2026/27 sydd werth £5.2m, a fyddai'n dod i rym yn unol â'r proffil isod:

**PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2024/25 YMLAEN**

| | 2024/25<br>£ | 2025/26<br>£ | 2026/27<br>£ | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Proffil arbedion | 1,965,760 | 2,860,300 | 343,090 | **5,169,150** |

4.4. Cafodd cyfanswm arbedion parhaol 2024/25 a 2025/26 (£4.8m) ei gynnwys yng nghyllideb 2024/25, gyda'r arbedion oedd wedi eu hodi tan 2025/26 yn cael eu pontio o gronfeydd am un flwyddyn yn unig. Serch hynny, nid yw'r arbedion o £343,090 sydd wedi cael eu rhaglennu ar gyfer 2026/27 wedi cael eu tynnu o gyllidebau adrannol eto felly maent ar gael i lenwi bwlch ariannol yn 2026/27.

Crynodeb o arbedion sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer 2025/26 hyd 2027/28 sydd eu tynnu o gyllidebau adrannol eto

4.5. I grynhoi'r uchod, mae arbedion pellach sydd eisoes wedi cael eu cymeradwyo ond nad ydynt wedi cael eu tynnu o gyllidebau (ac felly ar gael i gyfrannu at y bwlch ariannol yn y CATC) fel a ganlyn:

| | 2025/26<br>£m | 2026/27<br>£m | 2027/28<br>£m |
|---|---|---|---|
| Arbedion wedi eu cymeradwyo | 0.5 | 0.3 | 0 |
| **Arbedion sydd ar gael i lenwi blwch** | **0.5** | **0.3** | **0** |

## 5. BWLCH ARIANNOL CYFNOD Y CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

**5.1. Mae'r uchod yn awgrymu bydd y Cyngor, os nad yw'n cymryd camau pendant, buan, yn wynebu bwlch ariannol o £8 miliwn yn 2025/26, £4.8 miliwn pellach yn 2026/27 a £4.6 miliwn pellach yn 2027/28.**

| | **Amcan Ebrill 2024** | | |
|---|---|---|---|
| | **2025/26** | **2026/27** | **2027/28** |
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Pwysau** | | | |
| Chwyddiant Tâl | 7.4 | 5.1 | 5.2 |
| Chwyddiant Prisiau | 3.6 | 3.0 | 2.8 |
| Ardollau | 0.5 | 0.3 | 0.3 |
| Eraill | -1.0 | | |
| | | | |
| Pwysau / Galw | 3.0 | 3.0 | 3.0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Pwysau** | **13.5** | **11.4** | **11.3** |
| | | | |
| **Newidiadau Ariannu** | | | |
| Treth Cyngor | 6.0 | 6.3 | 6.7 |
| Setliad Grant | 0 | 0 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm y newidiadau Ariannu** | **6.0** | **6.3** | **6.7** |
| | | | |
| Arbedion i'w gwireddu | 0.5 | 0.3 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Ariannu ac Arbedion** | **6.5** | **6.6** | **6.7** |
| | | | |
| **Bwlch** | **7.0** | **4.8** | **4.6** |
| | | | |
| Pontio Cyllideb 2024/25 | 1.0 | 0 | 0 |
| | | | |
| **Bwlch Terfynol** | **8** | **4.8** | **4.6** |

## 6. CRONFEYDD WRTH GEFN

6.1. Mae'r Cyngor yn cadw cronfeydd wrth gefn naill ai i ymgymryd â buddsoddiad/gwariant untro wedi'i gynllunio neu i ddelio â sioc/risg ariannol sy'n wynebu'r awdurdod yn ei weithrediadau.

6.2. Mae balansau cyffredinol y Cyngor yn eu lle ar gyfer sefyllfa o wir argyfwng a nid yw cynllunio i ddefnyddio'r arian yma yn arddangos cynllunio ariannol darbodus gan byddai hyn yn gwanio cynaliadwyedd ariannol yr awdurdod i lefel is na'r hyn sy'n dderbyniol. Ar 31/03/2024 mae gan y Cyngor **£7.912 miliwn o gronfeydd cyffredinol**.

6.3. Ar wahân i'r balansau cyffredinol, mae tair cronfa wedi bodoli dros y 3 blynedd ddiwethaf i ariannu gofynion gwariant un tro, i ymdrin â gorwariant neu i bontio cyn i arbedion ddod i rym, sef:

- Cronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor
- Cronfa Adfer yn Sgil Covid
- Cronfa Trawsffurfio

6.4. Mae sefyllfa alldro'r cronfeydd hyn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24 fel a ganlyn:

| **Cronfa** | **Balans 01/03/2024 £'000** | **Addasiad Cau Cyfrifon 2023/24 £'000** | **Cyllido Gorwariant 2023/24 £'000** | **Cyllido Bidiau Un Tro £'000** | **Pontio o Gronfeydd £'000** | **Balans Diwygiedig £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Ariannol y Cyngor | 16,540 | 466 | | (1,862) | (3,991) | 11,153 |
| Adfer yn Sgil Covid | 3,800 | 602 | (4,402) | | | |
| Trawsffurfio | 3,534 | 1,112 | | (4,646) | | |
| **Cyfanswm** | **23,874** | **2,180** | **(4,402)** | **(6,508)** | **(3,991)** | **11,153** |

6.5. Rhagwelir bydd y Gronfa Trawsffurfio a'r Gronfa Adfer yn Sgil Covid wedi eu gwacáu yn llwyr erbyn cau cyfrifon blwyddyn ariannol 2023/24.

6.6. Mae gan y Cyngor ystod o gronfeydd eraill, ond mae'r rheini wedi cael eu clustnodi ar gyfer pwrpasau penodol a ni fyddant ar gael i ariannu bylchau yn y gyllideb refeniw. Bydd newidiadau i werth nifer o'r cronfeydd wrth i waith cau cyfrifon 2023/24 fynd rhagddo, ond fel canlyniad i'r newidiadau a ddangosir yn y tabl uchod, amcangyfrifir fod gwerth cyfredol y cronfeydd a balansau fel a ganlyn

| **Cronfeydd** | **£'000** |
|---|---|
| Strategaeth Ariannol y Cyngor | 5,278 |
| Adfer yn sgil Covid | - |
| Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor | |
| Cronfeydd Adnewyddu | 8,242 |
| Cronfeydd Cyfalaf | 28,566 |
| Cynllun Gweithredu Tai | 15,058 |
| Cronfeydd Eraill | 26,525 |
| | **83,669** |
| | |
| **Balansau Cyffredinol** | **7,912** |

## 7. RHAGLEN GYFALAF

7.1. Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer y dair blynedd yn cychwyn 1 Ebrill 2025. Bydd y gwaith o baratoi rhaglen gyfalaf yn cynnwys 2027/28 yn cael ei gynnal yn ystod misoedd cynnar 2024/25, ac mae hynny yng nghyd-destun adolygiad cynhwysfawr o Gynllun Rheoli Asedau fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf 2024.

| **RHAGLEN GYFALAF** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2024/25 £'000** | **2025/26 £'000** | **2026/27 £'000** |
| **Cynlluniau Asedau'r Cyngor:** | | | |
| Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 9,023 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Tai | 3,000 | 1,300 | 1,300 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes | 2,500 | 0 | 0 |
| Cartrefi / Canolfannau Oedolion | 1,515 | 0 | 0 |
| Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol | 1,051 | 1,700 | 2,078 |
| Atal Llifogydd Arfordirol | 793 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Eraill | 3,136 | 1,023 | 1,251 |
| Bidiau Cyfalaf | 2,123 | 500 | 500 |
| **Cynlluniau Eraill:** | | | |
| Strategaeth Dai–Cronfa Premiwm Treth y Cyngor | 0 | 0 | 2,549 |
| Strategaeth Dai – Prynu i Osod | 0 | 0 | 2,880 |
| *Cynlluniau Eraill Eisoes wedi eu Cymeradwyo:* | | | |
| Cynlluniau Cronfa Ffyniant Gyffredin | 16,406 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro | 10,098 | 3,239 | 0 |
| Cynlluniau / Strategaeth Tai | 14,940 | 5,430 | 0 |
| Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 7,031 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Eiddo | 3,254 | 0 | 0 |
| Atal Llifogydd Arfordirol | 3,113 | 0 | 0 |
| Cerbydau Adrannol | 2,960 | 962 | 0 |
| Unedau Diwydiannol | 1,424 | 0 | 0 |
| Eraill | 2,858 | 402 | 362 |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN** | **85,225** | **14,556** | **10,920** |